# Cyngor Cymuned Pentir
## Cofnodion cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn
## Nos Fercher 11eg o Fai 2022

1. **Presennol:** Cyng M Lynch – Cadeirydd; Cyng L A James; Cyng M Baines Cyng J Pierce a Cyng B Jones
   Clerc E Jones
2. **<u>Ymddiheuriadau</u>** Cyng D Jones-Morris; Cyng E Jones, Cyng J Lewis; a'r Cyng A Joyce

3. **Datgan buddiant**
   Ni ddatgelwyd buddiant

4. **Derbyn cofnodion 14 eg o Ebrill 2022**
   Cyng L A James yn cynnig a Cyng J. Pierce yn eilio

5. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   Dam na fyddai yn cael ei drafod o fewn yr agenda

5. **Materion ariannol**
   i. **Mantolen ariannol**
   'Roedd y fantolen eisioes wedi ei thrafod yn y cyfarfod Blynyddol
   Ii. **Cofnodion cyfarfod IBC 27/04/2022**
   Dim ymateb wedi dderbyn o'r archwilwyr allannol

   Prosiectau
   i. Prosiect Ysgol Y Faenol Dim diweddariad
   ii. Logo Newydd Fideo wedi ei dderbyn
   iii. Septic Tanc Glasinfryn Gwaith papur wedi ei gwblhau ond angen anfon Siec am £180 Sect 106 i Dwr Cymru
   iv. Capel y Fynwent Cyfarfod wedi bod ond y Clerc ddim mewn sefyllfa i adrodd yn ol gan iddo fethu bod yn bresennol

6. **Logo newydd**
   Y dylunydd wedi creu fidio a rhannwyd hi ar y sgrin gan y Cyng L A James

7. **Cynllunio**
   Dim cais wedi ei dderbyn ers y cyfarfod dwaetha

8. **Materion y Clerc**
   - **Yswiriant** Trafod amcanbris a cytunwyd i barhau hefo'r Cwmni yma eto eleni ac i'r Clerc adnewyddu'r polisi
   - **Septic Tanc** Dal i ddisgwyl cael dyddiad cychwyn y gwaiith
   - **Capel y Fynwent** Adroddodd y Cadeirydd eu bod hi a'r Cyng J Lewis a Cefin Roberts wedi cyfarfod a Dafydd Einion Jones Gwynedd i drafod y posibilrwydd o adnewyddu'r Capel yn adeilad aml-bwrpas allai fod yn Ganolfan gymunedol i Pentir
     Cafwydd cyfarfod buddiol iawn a gofynwyd sawl cwestiwn i geisio dod i benderfyniad
     Oes digon o gefnogaeth lleol ag a fyddai'r gefnogaeth leol yn unfrydol?
     Fysa'n bosib cyfiawnhau gwariant sylweddol pan fo eisioes Neuadd Bentref yn Rhiwlas a Chanolfan Gymunedol yn Glasinfryn – y ddau leoliad yn eitha agos i Pentir
     Cytunwyd i aros a gweld ar hyn o bryd gan nad yw'r dafarn leol ar agor byth ag efallai byddai hynny'n datrys rhywfaint am ofod cymunedol
   - **Seddi gwag yn dilyn Etholiad Mai 2022**
     Gan fod 3 sedd wag i'w llenwi esbonwyd y bod rhaid hysbysebu hynny yn gyhoeddus a disgwyl os byddai ymateb . Mi oedd yn cyn Gyng D W Jones wedi anfon ei ffurflen i mewn ond heb ei gwblhau yr ail-ran – Mi oedd wedi datgan ei awydd i ddod yn ol am dymor arall ond byddai rhaid mynd drwy'r broses

**10 Cynghorwyr**

**Cyng M Baines** Llysiau'r Dial ym mynwent Eglwys Pentir'

Cododd y Cyng fod pryder wedi ei ddatgan gan un o'r etholwyr ynglyn a'r planhigyn yma ym Mynwent yr Eglwys yn ofni y byddai yn treiddio mewn i'w caeau

Clerc eisioes wedi codi'r mater hefo y cyn-rheithior ond dim wedi ei wneud ynglyn a'r mater gan fod y broblem yn dal yna

**Clerc i gysylltu yn ol hefo'r esgobaeth gan nad oes bellach Reithior yn Pentir**